**Y Canolbarth 05-00(min)**

# Cofnodion Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth

**Dyddiad:** Dydd Gwener 20$^{fed}$ Hydref, 2000

**Amser:** 10.30 am

**Lleoliad:** Neuadd yr Ysgol, Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Elin Jones, Cadeirydd** | Plaid Cymru | Ceredigion |
| **Mick Bates** | Democrat Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| **Nick Bourne** | Ceidwadwr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Cynog Dafis** | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Glyn Davies** | Ceidwadwr | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| **Kirsty Williams** | Democrat Rhyddrydol | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Delyth Thomas** | Clerc |
| **Brian Duddridge** | Dirprwy Glerc |
| **Gareth Woodhead** | Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Delyth Evans

**Eilyddion:** Nid oedd rhai

**Datganiadau o fudd:** Nid oedd rhai

**Sylwadau Agoriadol**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a diolchodd i Gareth Jones, Prifathro Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan, am ganiatáu i'r cyfarfod gael ei gynnal yn neuadd yr ysgol ar ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd.

Atgoffwyd aelodau'r cyhoedd fod hwn yn gyfarfod ffurfiol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac y byddai'r rheolau arferol o ran trefn ac ymddygiad yn sefyll. Roedd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael**.**

**Camau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod diwethaf**

Yn dilyn y cyfarfod yn Ystradgynlais, dywedodd y Cadeirydd iddi ysgrifennu yn unol â dymuniadau'r Aelodau at awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol a chyrff sy'n cynrychioli busnes yng nghanolbarth Cymru i geisio sefydlu gwell cyswllt gyda hwy. Siomedig fu'r ymateb. Byddai'r Cadeirydd yn ystyried sut i symud ymlaen ar y mater hwn. Fodd bynnag, nodwyd y byddai awdurdodau lleol yn cymryd rhan yn y cyfarfod gydag Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) ar adfywio economaidd a chymunedol.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adfywio Economi a Chymunedau y Canolbarth**

***Papur : MID 05-00(td.1)***

1.1 Cofrestrodd y Cadeirydd ymddiheuriad oddi wrth Syr David Rowe-Beddow, Cadeirydd y WDA a gwahoddodd Sian Lloyd-Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr Rhanbarth Canolbarth Cymru o'r WDA, i roi ei chyflwyniad, Cyflwynodd Ms Lloyd-Jones ei chydweithwyr, Karen Latham, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes a Sioned Rees, Rheolwr Datblygu Rhanbarthol. Nododd y Cadeirydd ei bod hi gynt wedi gweithio i'r WDA a bod Glyn Davies yn gyn Gadeirydd ar Fwrdd Datblygu Cymru Wledig.

1.2 Ymdriniodd Ms Lloyd-Jones â phwyntiau a oedd wedi eu nodi yn y papur a gyflwynwyd yn Atodiad 1. Gweithiai Rhanbarth Canolbarth Cymru mewn partneriaeth â chyrff o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ganfod anghenion cwsmeriaid ym meysydd busnes, eiddo a datblygu rhanbarthol. Canolbwyntiai ar fusnesau sy'n ymsefydlu o'r newydd a micro-fusnesau gan roi cymorth ymarferol drwy Cyswllt Busnes. Pwysleisiai'r angen am safleoedd hygyrch a buddiannau eang eu sylfaen gyda blaenoriaeth i fusnesau a fyddai'n ychwanegu gwerth. Roedd cyngor ar gael drwy gyfrwng un pwynt mynediad ar gynllunio busnes, grantiau, ymgynghorwyr a chwnselwyr arbenigol, anghenion a chyfleoedd hyfforddi ac ar systemau rheoli cleientiaid.

1.3 O'r busnesau y rhoddir cymorth iddynt mae 90% yn rhai cynhenid, a thueddai unrhyw fewnfuddsoddi i ddod o'r DU. Rhoddid anogaeth i wneuthurwyr a oedd yn creu cynnyrch ar gyfer marchnadoedd arbenigol, a hefyd y rheini â sylfaen sectoraidd megis gweithgynhyrchu, bwyd-amaeth e.e. Caws Dyffryn Aeron, y Burger Company. Roedd yr Asiantaeth yn edrych ar y sector coed; roedd hefyd yn defnyddio dull thematig a dorrai ar draws gwahanol sectorau.

1.4 Wrth hyrwyddo 'rheolaeth ar sail cyfrifon' roedd yr awdurdod yn cymell datblygu clystyrau a rhwydweithiau e.e. Cymdeithas Allforio Grp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth. Roedd canolfannau

arbenigedd yn cael eu hannog e.e. Parc Gwyddoniaeth Aberystwyth, IGER a’r Ganolfan Technoleg Amgen.

1.5 Roedd darparu eiddo ymlaen llaw yn bwysig iawn; er 1989 codwyd 722 o unedau ffatri, yn cynnig tua 4 miliwn sgwâr o ofod. O’r rheini, gwerthwyd 484 o unedau gan adael 238 yn cynnig tua 1 miliwn troedfedd sgwâr. Ac edrych i’r dyfodol, byddai cyllid Amcan 1 a’r Grant Datblygu Eiddo newydd yn gymorth i fuddsoddi.

1.6 Dywedodd Sioned Rees fod cynllunio strategol gyda phartneriaid – gyda golwg ar gael cyllid Amcan 1 a 2 – wedi ei sefydlu, yn ymgorffori meysydd trafnidiaeth, technoleg gwybodaeth, twristiaeth a ffactorau eraill sy’n hanfodol bwysig i’r Canolbarth. Ymysg y cynlluniau roedd Leader a Mwy, datblygu cymunedol drwy adfywio megis Cynllun y Trefi Marchnad, darparu ‘pecynnau gwaith’ wedi’u hanelu at anghenion cymunedol lleol sy’n ceisio cyllid refeniw ac yn cynnig mynediad at gyngor proffesiynol e.e. penseiri. Roedd rhoi grantiau gwella tref ar waith mewn ardaloedd megis Blaenau Ffestiniog yn helpu i greu swyddi.

1.7 Roedd Rhanbarth y Canolbarth yn ymchwilio i’r ffaith bod pobl ifanc yn ymadael â’r ardal a beth y gellid ei wneud i atal hyn, fel rhan o’r cynllun Llwybro. Dywedid bod diffyg mynediad i sefydliadau addysg uwch a diffyg cyflogaeth gyda chyflogau da yn rheswm allweddol dros ymadael. Roedd cronfa ddata yn cael ei chasglu ynghyd ar hyn a byddid yn ymgynghori â sefydliadau gyrfaoedd a phrifysgolion ar sut y gellid ymdrin â’r broblem.

1.8 Roedd yr Awdurdod wedi gweithredu’n gadarnhaol pan gafodd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ei gyfuno i mewn i Ranbarth y Canolbarth o’r WDA; ar hyn o bryd roedd y lefelau staffio yn 90 a mwy gydag adnoddau o £17.5m wedi’u rhaglennu i’w buddsoddi yn 2000-21 o’u cymharu â gwariant o £13m ym mlwyddyn olaf y Bwrdd Datblygu. Roedd gan y Rhanbarth fwy o bwerau, cynlluniau mwy hygyrch a gallai fanteisio ar fwy o arbenigedd. O bwyso a mesur, bu’r effaith, yn eu barn hwy, yn un bositif.

1.9 Ymysg y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yr oedd:

- roedd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig wedi gallu canolbwyntio ar ddiboblogi yng nghanolbarth Cymru; dylai Rhanbarth y Canolbarth barhau i wneud hyn;
- pwysigrwydd parhau â’r Cynllun Llwybro;
- ni fu unrhyw gyfeiriad at berthynas waith gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. A oedd yn ymgynghori â hwy ac a oedd yn chwilio am gyfleoedd cadarnhaol i rannu cynlluniau;
- a oedd y Rhanbarth yn cadw pwysigrwydd ynni amgen i’r amgylchedd a’i berthynas â’r amgylchedd mewn cof;
- ai polisi ‘adeiladu’n gyntaf’ yw’r ffordd orau o weithredu yng nghyswllt unedau diwydiannol;
- a fu mwy o fuddsoddi yn sgîl cyfuno’r Bwrdd Datblygu i mewn i Ranbarth y Canolbarth;
- pa effaith a gâi Amcan 1 a 2 ar gynlluniau’r Awdurdod;
- mae Powys yn y canol rhwng Amcan 1 a chronfeydd strwythurol a ddefnyddir ar ochr Lloegr i’r ffin; beth sy’n cael ei wneud i sicrhau na fyddai ar ei cholled;
- sut y byddai cynllun y ‘pecynnau gwaith’ a chynllun y trefi marchnad yn perthnasu i’w gilydd;
- sut oedd cynlluniau adfywio cymunedau yn cael eu monitro, a oedd colledion o ran meithrin gallu; a
- sut yr oedd datblygu cynaliadwy yn hawlio’i le yn y cyfanwaith.

1.10 Teimlai swyddogion yr Awdurdod fod yna berthynas gadarnhaol iawn a rhagweithiol gyda'r Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Roeddynt yn gweithio ar bolisi ynni a gydnabyddai'r angen amgylcheddol i warchod y tirwedd. Cydnabyddai pob parti fod gan bob un ohonynt ei agenda ei hun ac y gellid cael gwrthdaro e.e. megis gyda British Western Softwood (BSW) lle na ellid anwybyddu'r effaith ar yr amgylchedd.

1.11 Y strategaeth o ran adeiladu oedd bod yn effro i'r galw posibl a dal y fantol rhwng adeiladu ymlaen llaw a'r gallu i ymateb yn gyflym i alw newydd. Roedd angen gwella'r gwasanaethau seilwaith yn unol â hynny e.e. darpariaeth technoleg gwybodaeth (TG), gwelliannau trafnidiaeth ayb i gyfateb i'r disgwyliadau o ran ansawdd bywyd. O ran y rhagolygon i gael cyllid Amcan 1, roedd y Bwrdd Datblygu wedi dechrau adolygu ei flaenoriaethau a symud oddi wrth fuddsoddi yn Nyffryn Hafren, sy'n gymharol lewyrchus. Fodd bynnag, roedd yn parhau i roi ystyriaeth fyw i anghenion Powys.

1.12 Câi cynaliadwyedd ei ymgorffori mewn cynigion ar gyfer adeiladu ymlaen llaw a thirlunio; roedd rhaglen werthuso yn cael ei datblygu. Roedd y mesuriadau traddodiadol wedi cynnwys nifer y swyddi a gâi eu creu a pha mor gyflym y caent eu creu, a hefyd y costau sydd ymhlyg mewn sefydlu a chynnal menter. Ymysg y dangosyddion eraill a ffafrir gan y sector preifat yr oedd mesurau 'meddal' e.e. nifer y rhwydweithiau a sefydlir ac, yn bwysig, effeithlonrwydd a natur gystadleuol. Yn ogystal, gellid comisiynu gwerthusiadau allanol.

**Barn yr Awdurdodau Lleol**

***Papurau : MID 05-00 (td.2, td. 3 a thd. 4)***

Cyngor Sir Ceredigion

2.1 Cyfeiriodd y Cyng Keith Evans, Aelod Cabinet o Bwyllgor Datblygu Economaidd, Twristiaeth, Ewrop a Hyfforddiant Cyngor Sir Ceredigion, at ei bapur. Tynnodd sylw at yr angen am fuddsoddi sylweddol pellach ym mhob maes ac yn enwedig at ryddhau maes awyr DERA yn Aber-porth, a haeddai gefnogaeth lawn y WDA a'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr unig achosion lle'r oedd y WDA wedi denu mewnfuddsoddiad sylweddol oedd yng nghyswllt Cybercall a Chaws Dyffryn Aeron. Roedd angen tryloywder mewn cynllunio rhanbarthol i adlewyrchu anghenion lleol, byddai dyfodiad Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru yn ychwanegu at y llu o grwpiau sy'n ymwneud ag adfywio ac ni ddylid caniatáu iddo gymhlethu ymhellach yr help sydd ar gael.

2.2 Tynnodd sylw at y ffaith bod Cyngor Sir Ceredigion i dderbyn £1m yn llai na'r disgwyl o nawdd ariannol oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai hynny'n cael effaith andwyol ddifrifol ar allu'r Cyngor Sir i fuddsoddi mewn cyfleoedd cyflogaeth mewn ardal sy'n ddibynnol iawn ar dwristiaeth ac amaethyddiaeth. Roedd y gostyngiad mewn cyllid yn peri pryder neilltuol ar adeg pan fyddai'r Cyngor yn dymuno elwa i'r eithaf ar gyllid Amcan 1. Roedd gormod o bwyslais ar ddatblygu trefol er anfantais i anghenion gwledig mewn cynlluniau a strategaethau cenedlaethol. Anogodd y Pwyllgor i ystyried yr angen am ddatblygu rhanbarthol ac i ryddhau cyllid ychwanegol ar gyfer gorllewin Cymru.

Cyngor Sir Powys

2.3 Tynnodd y Cyng John Thompson, Cadeirydd Partneriaethau Adfywio Dwyrain Cymru a Phowys, sylw at y materion a godwyd ym mhapur Powys. Pwysleisiodd bryderon yngln â cholli'r Bwrdd Datblygu – asiantaeth na ddeliai ond â chanolbarth Cymru – ac roedd y diffyg aelod o Bowys ar fwrdd y WDA yn dwysáu'r pryderon hynny. Er bod yna berthynas waith dda gyda'r WDA, gofynnodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried aelodaeth y bwrdd. Nid oedd y dirywiad amlwg yn economi cefn gwlad wedi helpu busnesau lleol ac ni fu gofynion gweinyddol gorgymhleth yn help i'r sefyllfa.

2.4 Siaradodd Graham Davey, Cyfarwyddwr Cynllunio, Datblygu Economaidd ac Adfywio Powys, o blaid gweithredu mewn dull holistaidd tuag at adfywio cymunedol, lle mae angen ymrwymiad cyllido hirdymor. Roedd angen cyd-drefnu ffynonellau cyllido, gydag awdurdodau lleol wrth graidd strategaethau cymunedol. Tynnodd sylw at y ffaith bod dyletswydd newydd wedi'i roi ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i hyrwyddo datblygu economaidd a chymdeithasol. Cefnogai egwyddorion Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ond gobeithiai na fyddai hyn yn arwain at haen arall o weinyddiaeth gynllunio.

Cyngor Sir Gwynedd (Meirionydd)

2.5 Pwysleisiodd Dyfrig Siencyn, Is-gadeirydd Pwyllgor Dethol Gwynedd ar Gyflogaeth ac Ewrop, yr angen am ddatblygu economaidd yn hytrach na chymunedol ym Meirionydd. Yr oedd pryder ym Meirionydd yngln â chyfuno'r Bwrdd Datblygu i mewn i'r WDA a'r effaith ar ganolbarth Cymru a fyddai'n deillio o hynny, ond ymddengys bod hyn wedi ei ddatrys bellach. Nid oedd y dirwasgiad difrifol yn y diwydiant amaethyddol wedi gwneud dim i gadw pobl ifanc yn yr ardal. Yng nghadwraeth yr amgylchedd ac mewn cymunedau lleol y mae cynaliadwyedd wedi ei wreiddio; yr oedd pryder yngln â'r diffyg cynnydd gyda chynlluniau Amcan 1 a oedd wedi peri i'r sector preifat golli diddordeb mewn nifer o gynlluniau.

2.6 Ymysg y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth yr oedd:

- yr angen i edrych ar ganllawiau cynllunio fel y mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu economaidd;
- yr angen am gydbwysedd rhwng cynaliadwyedd a datblygu amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd;
- gwerth cynlluniau pellach megis hwnnw yn DERA, Aber-porth;
- pa gymorth ddylai ddilyn pan ddeuai cynllun y trefi marchnad i ben;
- pa broblemau penodol oedd yna o ran bwrw ymlaen â chyllid Amcan 1;
- y dylai fod yn bosibl, wrth ystyried aelodaeth byrddau megis y WDA, i'r awdurdod penodi dargedu ardaloedd gwledig nad oes cynrychiolaeth ddigonol ohonynt;
- beth oedd goblygiadau'r diffyg ariannol a ganfuwyd i Geredigion o ran, er enghraifft, y dreth gyngor; ac
- ym mhle y dylid cael ymyrraeth ym maes amaethyddiaeth.

2.7 Teimlai cynrychiolwyr Ceredigion ei bod yn bwysig canfod cyfleoedd gwaith lleol i bobl leol; roedd yn bwysig iawn ceisio annog cynlluniau eraill megis DERA drwy fanteisio ar gyllid llywodraeth sy'n bodoli'n barod megis cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn; roedd rhai cynlluniau Amcan 1 wedi gorfod wynebu oedi yn hytrach na bod y cynlluniau wedi methu; roedd y diffyg o £1m mewn cyllid yn cyfateb i gynnydd o 15% ym miliau'r dreth gyngor neu £40 y pen; roedd y cyngor wedi disgwyl cyllid ychwanegol nid llai.

Roedd newidiadau i’r dreth gyngor yn effeithio’n anghymesur ar enillwyr incwm canol.

2.8 Ceisiai cynrychiolwyr Powys ddolen gyswllt rhwng datblygu economaidd a chynllunio a dylid ystyried hynny fel rhan o’r arolwg o ganllawiau cynllunio sydd ar y gweill gan y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn anodd ymdrin â chynaliadwyedd mewn modd clir a chydlynus gan nad oes strategaeth ynni genedlaethol mewn bodolaeth i Gymru.

2.9 Adleisiodd cynrychiolwyr Meirionydd yr angen am ymdrin mewn modd cytbwys â materion cynllunio gyda phwyslais ar briodolrwydd pob cynnig. Byddai angen i farn pawb dan sylw gael ei hystyried a dylid cymryd gofynion y Ddeddf Hawliau Dynol i ystyriaeth. Cafwyd gormod o or-ddweud yngln â chyllid Amcan 1 ac o’r herwydd collwyd cryn lawer o ddiddordeb ac arian sector preifat a olygai ostyngiad o 50% mewn cyllid. Dylid canolbwyntio ar chwyddo incymau ffermydd yn eu cyfanrwydd yn hytrach na’u hincwm o ffermio yn unig, gan amlygu’r cyfleoedd i arallgyfeirio. Byddai angen i gynllun y trefi marchnad barhau gyda rhywfaint o’r nawdd yn cael ei dynnu’n ôl yn raddol. Y bwriad oedd y byddai cynlluniau o’r fath yn dod yn hunangynhaliol o fewn amserlen y cynllun.

2.10 Ymdriniodd Rhanbarth y Canolbarth â rhai o’r pwyntiau hyn a phwyntiau cynharach; mater i’r Cynulliad Cenedlaethol yw aelodaeth y WDA ac mae’n dibynnu’n drwm ar geisiadau am aelodaeth yn hytrach nag enwebiadau am benodiadau; y Rhanbarth yw’r uned sydd yn y sefyllfa orau i fynd i’r afael ag anghenion y Canolbarth ac mae’n cydnabod y cyswllt agos iawn rhwng amaethyddiaeth a’r economi; roedd anghenion addysg a hyfforddiant pobl ifanc yn ganolog i ffyniant y rhanbarth.

**Y Cynulliad Cenedlaethol – Rhoi Cymunedau’n Gyntaf**

***Papur : MID 05-00(td.5)***

3.1 Pwysleisiodd Barbara Castle nad oedd y rhaglen namyn drafft. Tynnodd sylw at y pwyntiau a ganlyn – mae’r cynllun wedi’i wreiddio yng ngwaith tasglu cenedlaethol Tai Cymru gynt ar dai a strategaeth ond yr oedd wedi symud ymlaen i ymdrin â datblygu cymunedol mewn modd trawsbynciol a chydgysylltiedig; yr angen i ennyn cyfranogiad cymunedau mewn gwaith partneriaeth; yr angen i ymgorffori materion cyflwyno gwasanaeth yn rhan o ddarparu a gwerthuso; mae’r arferion gorau drwy’r DU ac yn fyd-eang yn cael eu cyfeirio at y rhaglen.

3.2 Roedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymgynghori ar y papur cychwynnol o fewn Cymru – derbyniwyd dros 160 o ymatebion a mynychwyd 21 o seminarau i awdurdodau lleol – i sefydlu pa wersi cartref y gellid eu dysgu; roedd swyddogion wedi siarad â chyrff megis Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, LEADER, Menter Powys, y parciau cenedlaethol, grwpiau ffermwyr yng Ngwynedd ayb; yn awr byddai ail bapur yn cyhoeddi gwybodaeth leol a phrofiad ar gyfer grwpiau targedu a mynegeio. Byddai’n hyrwyddo hyblygrwydd wrth ymdrin â datblygu cymunedol drwy, ymysg pethau eraill, lunio partneriaethau ac integreiddio fertigol. Cyn y gellid ystyried nawdd byddai angen i ymgeiswyr fod wedi sefydlu strategaeth a oedd yn sicrhau darpariaeth gyson a hirdymor. Byddai i bartneriaethau lleol aelodaeth eang gan gynnwys Aelodau o’r Cynulliad Cenedlaethol ac aelodau o awdurdodau lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr cymunedau lleol. Byddai pob un yn ymdrechu i sicrhau y meithrinnir gallu er mwyn creu newid parhaol a chynaliadwy.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i’r holl gyfranwyr am ddadl fywiog ac adeiladol.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cyflwyniadau gan y Cyhoedd**

4.1 Rhoddwyd y cyflwyniadau canlynol:

| **Pwnc** | **Corff/Siaradwr** | **Papur** |
|---|---|---|
| Y problemau sy'n wynebu pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig | Geraint Pugh a Geinor Medi o chweched dosbarth Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan | Atodiad 1 |
| Awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel | Gillian Metcalf | Atodiad 2 |
| Adfywio economaidd | Yr Athro Peter Midmore, Sefydliad Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth | Atodiad 3 |
| Y ddadl o blaid ysgol newydd | Huw Jenkins, Pennaeth Ysgol Gynradd Ffynnon Bedr, Llanbedr Pont Steffan a Janet Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr | Atodiad 4 |

**Eitem 4 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

5.1 Derbyniwyd y cofnodion.

5.2 Câi'r cyfarfod nesaf ei gynnal ddydd Gwener 1af Rhagfyr yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn, y Bala. Byddai'r agenda yn cynnwys archwilio Cynlluniau Gwella Iechyd.

5.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r ysgol am estyn croeso i'r cyfarfod.

**Mae'r atodiadau canlynol wedi eu cynnwys yn yr iaith y cyflwynwyd hwy ynddi.**